



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: adborth

Cyflwyniad

Rydym yn croesawu eich adborth ar y canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022.

Bydd y cyfnod adborth yn dechrau ar 30 Ebrill ac yn gorffen ar 19 Gorffennaf 2019. Byddwn yn edrych ar yr adborth a ddaeth i law ac yn ymateb i themâu'r adborth ar ôl y cyfnod hwnnw.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i wneud gwaith mireinio pellach ar y canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022, cyn eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

Yma, mae cwestiynau cyffredinol a chwestiynau manylach i chi roi adborth arnynt.

Os ydych yn gweithio ym myd addysg neu yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno addysg, efallai yr hoffech ymateb i'r cwestiynau manylach sy'n ymdrin â'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu, a dysgu proffesiynol. Mae'r cwestiynau hyn yn dechrau'n gyffredinol ac yn mynd yn fwy penodol wrth fynd ymlaen.

Rydym yn argymhell eich bod yn darllen y canlynol cyn ymateb:

- [Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022](#)
- [Y maes/meysydd dysgu a phrofiad yr ydych eisiau rhoi adborth arnynt](#)
- [Cynigion ar gyfer asesu fel sail i ddatblygu canllawiau statudol.](#)

Bydd pob adborth a gyhoeddir yn ddienw. Mae cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn bwysig i ni. Mae ein [polisi preifatrwydd](#) ar y wefan yn esbonio sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth.

Os oes angen cymorth, e-bostiwch [**CwricwlwmGymru2022@llyw.cymru**](mailto:CwricwlwmGymru2022@llyw.cymru)

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data: Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd, CF10 3NQ e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru	Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House Water Lane Wilmslow Cheshire SK9 5AF Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113 Gwefan: https://ico.org.uk/
--	---

Cynulleidfa

Mae'r cwestiynau canlynol yn ein helpu i ddeall eich perthynas chi â'r canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022.

Ydych chi'n gweithio ym myd addysg neu'n cefnogi cyflwyno addysg?

Ydw	✓	Nac ydw	
-----	---	---------	--

Os 'ydy', pa sefydliad yr ydych yn gweithio ynddo? (Os 'nac ydy', parhewch isod)

Ysgol cyfrwng Cymraeg (Cynradd)	Sefydliad addysg uwch	
Ysgol cyfrwng Cymraeg (Uwchradd)	DAwdurdodau esgobaethol	
Ysgol cyfrwng Cymraeg (Arbennig)	Consortia rhanbarthol	
Ysgol cyfrwng Saesneg (Cynradd)	Awdurdod lleol	
Ysgol cyfrwng Saesneg (Uwchradd)	Darparwr hyfforddiant preifat	
Ysgol cyfrwng Saesneg (Arbennig)	Trydydd sector	
Ysgol ddwyieithog (Cynradd)	Llywodraeth	
Ysgol ddwyieithog (Uwchradd)	Dysgu oedolion yn y gymuned	
gol ganol cyfrwng Cymraeg	Sefydliad dyfarnu	
ôl ganol cyfrwng Saesneg	Undeb addysgu	✓
Uned cyfeirio disgyblion	Corff rheoleiddio (gan gynnwys Arolygiaeth)	
Ysgol arbennig	Corff llywodraethu	
Lleoliad a ariennir nas cynhelir	Arall (nodwch):	
Coleg addysg bellach		

Beth yw eich prif rôl?

Pennaeth (cynradd ac uwchradd)	Canghellor/Is-ganghellor	
Athro	Darlithydd	
Ymarferydd	Arloeswr	
Athro newydd gymhwyso	Llywodraethwr	
Cynorthwydd addysgu	Cynghorydd Herio	
Uwch arweinydd	Swyddog gwella ysgol	
Athro cyflenwi	Arolygydd	
Pennaeth/Dirprwy bennaeth	Arall (nodwch): Swyddog Undeb (Polisi)	✓

Os nad ydych yn gweithio ym myd addysg neu'n cefnogi cyflwyno addysg, ym mha rinwedd hoffech chi ddarparu adborth?

Rhiant neu ofalwr	Cyflogwr	
Oedolyn 18+ (nid rhiant na gofalwr)	Prentis	
Plentyn neu berson ifanc (dan 18)	Arall (rhowch fanylion):	
Myfyrwyr/academaidd		

Ydych chi'n rhoi adborth ar ran grŵp neu sefydliad?

Ydw	✓	Nac ydw	
-----	---	---------	--

Os 'ydw, nodwch hynny.

UCAC

Adran A - Cwestiynau cyffredinol

A1. Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd [canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022](#) yn helpu plant a phobl ifanc i ddod yn:

- ddysgwyr galluog, uchelgeisiol
- unigolion iach, hyderus
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- cyfranwyr mentrus, creadigol?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
		✓		

Sylwadau: Mae gan Gwricwlwm i Gymru, a'r canllawiau drafft sy'n cyd-fynd ag e, y potensial i lwyddo mewn perthynas â gweithredu'r pedwar diben. Mae'r fframwaith a'r egwyddorion, mewn termau cyffredinol, yn addas, yn ogystal â'r weledigaeth o ran trefniadau asesu. Mae hyn yn sicr yn gam cyffrous a chadarnhaol.

Mae un elfen benodol sy'n peri pryder i UCAC o ran ei botensial i arwain at gwricwlwm sydd wedi'i gyflwyno'n effeithiol a llwyddiannus ar y naill law, neu at ddryswch ac anhrefn - a allai amharu ar safon addysg disgyblion - ar y llall. Yr elfen honno yw **amser digyswllt sylweddol** i athrawon gael cynllunio rhaglenni gwaith newydd ac i addasu eu haddysgeg. Bydd angen yr amser hwn ar athrawon yn **unigol**, ond yn bwysicach fyth bydd angen amser **ar y cyd** i sicrhau bod y cynllunio'n digwydd ar draws pynciau/disgyblaethau/adrannau/cyfadrannau - i fod yn gydnaws â natur ryngddisgyblaethol, hyblyg y cwricwlwm - ac ar draws yr ystod oeddrannau (gan gynnwys cynllunio ar y cyd rhwng y cynradd a'r uwchradd) er mwyn cynllunio ar gyfer datblygiad dros amser, ac osgoi dyblygu.

Ar bwynt gwahanol, er bod ymagwedd ac addysgeg y cwricwlwm newydd yn llawer agosach mewn llawer o ffyrdd i ddulliau ysgolion cynradd, mae **strwythur y ddogfennaeth** yn mynd i fod yn anhylaw iawn i'r sector cynradd (ac felly hefyd i'r sector blynyddoedd cynnar cyn-ysgol – y lleoliadau a ariennir nas cynhelir). Mae'n debygol y bydd angen i ymarferwyr yn y sectorau hyn ymgyswrtu â chynnwys dogfennaeth sy'n ymwneud â phob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, yn ogystal â'r dogfennau mwy cyffredinol. Nid yw hynny'n debygol o fod yn wir i'r un graddau gyda'r sector uwchradd.

A2. Gan edrych ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, i ba raddau y maent yn crynhoi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc, yn eich barn chi?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
	✓			

Sylwadau: Ar y cyfan, maint yn edrych yn gynhwysfawr tra'n aros yn gryno. Mae ieithwedd rhai o'r datganiadau yn fwy astrus/technegol na'i gilydd - ac efallai bod hynny'n anrheg hyd at ryw bwynt. Fodd bynnag, rhaid cofio bod angen i ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr yn y meysydd hyn, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar a'r sector cynradd, allu mynd i'r afael â nhw, a gallu eu

'cyfieithu' - yn hyderus - i weithgareddau addysgol. Gallai fod yn fanteisiol yn ogystal sicrhau eu bod yn hygyrch o ran ieithwedd i ddysgwyr o ryw oedran.

A3. Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella [canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022](#)?

Oes		Nac oes	
-----	--	---------	--

Os felly, sut y gellid eu gwella?

Sylwadau: Er bod y canllawiau'n glir ynghylch y disgwyliadau mewn perthynas â'r 'dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol' ar draws y cwricwlwm, y cwestiwn i ni yw sut fydd modd sicrhau neu wirio bod hyn yn digwydd mewn gwirionedd. Yn sicr, nid ydym yn awgrymu haenau ychwanegol o atebolrwydd – ond bydd angen rhyw fath o fecanweithiau i sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu'n unol â'r weledigaeth, ac nad oes modd anwybyddu'r gofynion craidd.

Wrth gyfeirio at y cynigion deddfwriaethol, bydd angen gofal mawr wrth drafod statws y Gymraeg a'r Saesneg. Fel y gwelwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd', mae'n rhwydd iawn gwneud datganiadau sy'n ymddangos yn rhesymegol ac yn gytbwys, ond sydd â chanlyniadau anfwriadol o safbwynt addysg sy'n defnyddio'r dull trochi (er enghraifft y blynyddoedd cynnar, canolfannau i hwyrddyfodiaid). Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod angen gwneud y Saesneg yn ofyniad statudol; nid oes unrhyw berygl y bydd hi, fel iaith nac fel pwnc, yn cael ei hesgeuluso, tra – ar y llaw arall – gallai bod yna beryglon i'r Gymraeg o wneud y Saesneg yn statudol.

A4. I ba raddau y mae'r [cynigion asesu](#) yn helpu lleoliadau ac ysgolion i nodi cryfderau a chyflawniadau dysgwyr a'r meysydd i'w gwella er mwyn iddynt allu helpu dysgwyr i wneud cynnydd drwy nodi'r camau nesaf?

Arbennig o gefnogol	Cefnogol iawn	Cefnogol	Gweddol gefnogol	Ddim yn gefnogol o gwbl
		✓		

Sylwadau: Mae'r **egwyddorion** yn ymddangos yn gadarn, ac yn bositif, e.e. pwyslais ar asesu ffurfiannol, parhaus, ar hyd continwum, a chreu darlun crwn o ddysgwyr unigol, yn hytrach na cheisio cael dysgwyr i 'ffitio' i ddiffiniadau parod. Croesawn yn fawr y ffaith bod datgysylltu yn digwydd rhwng asesu ac atebolrwydd allanol – cysylltiad a fu'n niweidiol i ddysgwyr ac addysgwyr fel ei gilydd am lawer rhy hir.

Cytunwn â'r datganiad bod 'asesu'n rhan annatod o ddysgu ac addysgu', a chymeradwywn yn fawr y pwyslais, ochr yn ochr â hynny, ar 'ddulliau addysgeg priodol er mwyn galluogi dysgwyr i ddangos eu dysgu a'u datblygiad yn llawn'. Mae addysgeg ac asesu yn mynd law yn llaw (nid ydynt yn brosesau ar wahân, h.y. rhoi stop ar yr addysgu er mwyn asesu), ac mae'r pwyslais ar ddulliau asesu sy'n 'darparu gwybodaeth berthnasol a chymesur am gynnydd a llwyddiant mewn perthynas â'r dysgu a fwriedir' yn union gywir ym marn UCAC.

Wrth reswm, mae angen cofnod o ryw fath, a ffurfioldeb hyd at ryw raddau, ond gyda'r pwyslais ar y 'cymesur'. Croesawn y datganiad bod angen i leoliadau ac ysgolion 'arfer eu crebwyll i benderfynu pa agweddau ar y dysgu y dylid eu

hasesu, faint o wybodaeth asesu sy'n ddigonol i fesur cynnydd wrth ddysgu, yr hyn sydd angen ei gofnodi, a pha mor fanwl y dylai fod'. Gallai symud i'r cyfeiriad hwnnw leihau'n sylweddol y straen ar ddysgwyr sy'n deillio o asesu, ac ar yr un pryd, y straen ar athrawon a staff cymorth dysgu o asesu rhy ffurfiol, rhy aml, at bwrpasau allanol. Fodd bynnag, bydd rhaid sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth ar draws y system o'r hyblygrwydd hyn (o fewn ffiniau) a gochel rhag sefyllfaoedd ble mae ymarferwyr allanol yn glanio mewn ysgol ac yn gwyrddroi systemau effeithiol a bwriadus, ar sail barn bersonol neu ragdybiaeth wallus o'r hyn mae'r sawl uwch eu pennau am ei weld. Bydd hyfforddiant trylwyr yn greiddiol i hyn.

Cydsyniwn yn ogystal â'r awgrym y gall asesu (o'r math a amlinellir) fod yn sail ar gyfer myfyrio a gwerthuso i ymarferwyr – dim ond mai'r ymarferwyr eu hunain sy'n perchnogi'r broses honno.

Nodwn y bwriad i gadw asesiad sylfaenol wrth i ddysgwyr ddechrau ar eu haddysg 'ffurfiol' yn y Dosbarth Derbyn. Cytuna UCAC â'r bwriad hwnnw, yn ogystal â'r cynnig i ddefnyddio'r Proffil Cyfnod Sylfaen fel man cychwyn ar gyfer datblygu asesiad sylfaenol o'r fath. Mae sefydlu gwaelodlin yn hollbwysig ar gyfer cynllunio ac olrhain cynnydd, ac mae angen i hwn fod yn ddigon rhwydd i'w weinyddu.

Er bod yr egwyddorion hyn yn rhai cymeradwy iawn, nid yw'n gwbl glir eto sut y gweithredir hyn yn ymarferol (deallwn y bydd y manylder mewn is-ddeddfwriaeth). Er enghraifft, mae'r ddyletswydd ar benaethiaid 'i bennu deilliannau cyflawniad ar gyfer pob cam cynnydd' yn edrych fel gofyniad a allai fod yn feichus dros ben. Ac mae'r cwestiwn yn codi, a yw hyn yn agor y drws ar gyfer gormod o anghysondeb - neu a yw'n ffordd o sicrhau hyblygrwydd priodol?

Mae sicrhau bod **meddalwedd briodol** yn ei lle yn gallu lleihau'n sylweddol iawn yr amser y mae'n ei gymryd i ymarferwyr gofnodi a dadansoddi gwaith asesu. Byddai sicrhau cysondeb yn y feddalwedd ar draws ysgolion Cymru'n wirioneddol fanteisiol, ac yn debygol o hwyluso prosesau adrodd a chymedroli.

Yr hyn sy'n gwbl sicr yw y bydd angen **lefelau digonol o hyfforddiant** i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r trefniadau asesu, a chymedroli, ar draws y system – a hynny nid yn unig ar gyfer athrawon a staff cefnogi dysgu, ond ar gyfer ymgynghorwyr (Awdurdod Lleol/consortium rhanbarthol), arolygwyr Estyn, ac ati. Bydd angen sicrhau bod gan rieni/gwarchodwyr ddealltwriaeth o'r drefn newydd yn ogystal.

A5. Mewn perthynas ag adrodd i rieni a gofalwr, rhannwch eich barn gyda ni ar:

- rôl dysgwyr wrth gyfrannu at y broses adrodd
- rôl rhieni/gofalwyr yn y broses adrodd
- yr wybodaeth y byddech am ei chynnwys.

Sylwadau: Nid oes unrhyw beth i anghytuno ag e yn y cynigion mewn perthynas â'r trefniadau adrodd.

Cytunwn fod manteision i rôl fwy gweithredol i ddysgwyr yn y prosesau asesu ac adrodd, gan gynnwys rhoi mwy o berchnogaeth (a chyfrifoldeb) iddynt dros eu taith dysgu. Mae rhoi sylw a pharch i'w barn a'u dyheadau yn greiddiol ar gyfer sefydlu perthynas ar sail dealltwriaeth ac ymddiriedaeth.

Cytunwn yn ogystal ei fod yn werth ceisio adrodd i rieni/gofalwyr mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn cael darlun crwn, cyflawn o'u plant, a'u bod nhw'n ymwybodol o'r camau nesaf – ac unrhyw rôl gefnogol y gallan nhw, fel rhieni, ei chwarae.

Gallai'r cynnig i roi fwy o sylw i weithgareddau a chyflawniadau y tu hwnt i'r ysgol fod yn fanteisiol, gan roi persbectif ar ddiddordebau'r dysgwyr o fewn cyd-destun ehangach eu bywydau. Byddai angen bod yn ofalus o'r diffiniad o'r hyn sy'n berthnasol yn y cyd-destun hwn (e.e. cynnwys gofalu am berthynas hŷn/iau, neu helpu mewn busnes teuluol, ac nid dim ond gweithgareddau megis gwobrau Dug Caeredin) er mwyn gochel rhag gor-ddylanwad cefndir cymdeithasol.

Mae'r cynnig y gallai 'mewnbwn gan rieni/gofalwyr ac oedolion perthnasol eraill, yn ogystal â'r dysgwr, fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio ar gyfer asesu' yn un diddorol, ac yn sicr yn werth ymchwilio ymhellach iddo. Mae'n debygol iawn y bydd gwybodaeth a barn ddefnyddiol yn dod i'r golwg wrth roi lle ar gyfer trafodaethau o'r fath, ac mae'n parhau â'r thema o feithrin a rhannu cyfrifoldeb ac ymddiriedaeth.

Adran B – Cwestiynau manylach

B1. Pa mor ddefnyddiol fyddai [canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022](#) i chi wrth ddatblygu cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr?

Arbennig o ddefnyddiol	Defnyddiol iawn	Defnyddiol	Gweddol ddefnyddiol	Ddim yn ddefnyddiol o gwbl
		✓		
Sylwadau: Mae'r egwyddorion yn glir ac yn ddigamsyniol, ac mae hynny'n man cychwyn cadarnhaol. Mae'n glir mai cymysgedd o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau yw sail y cwricwlwm newydd, ac mae'r disgwyliadau o ran cyd-destun, pwyslais a datblygiad yn glir hefyd.				

B2. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae [canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022](#) yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael amrywiaeth eang o brofiadau dysgu?

Efallai y byddwch am ystyried y dysgu ar draws y disgyblaethau a'r pynciau gwahanol sy'n rhan o faes dysgu a phrofiad.

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
		✓		
Sylwadau: Unwaith eto, mae'r egwyddorion a'r disgwyliadau'n glir. Bydd dysgu ar draws disgyblaethau a'r pynciau unigol traddodiadol yn debygol o ddod yn llawer mwy naturiol i athrawon yn y sector cynradd, ac yn dipyn mwy o her i'r sector uwchradd sydd yn ei hanfod wedi'i strwythuro i ddarparu pynciau unigol, ar sail arbenigedd pynciol athrawon unigol, yn arwain at gymwysterau mewn pynciau penodol. Mewn egwyddor, dylai dysgu traws-ddisgyblaethol sicrhau profiadau ehangach am gyfnod hirach, hynny yw, ni fydd modd 'rhoi'r gorau' i Hanes neu Cemeg yn 13 oed; yn hytrach bydd dysgwyr yn profi 'blend' o bynciau a themâu o leiaf hyd at ddechrau cyrsiau TGAU, ac o bosib y tu hwnt i hynny. Wrth reswm, bydd patrwm cymwysterau – TGAU yn benodol yn y lle cyntaf (ond gyda golwg ar gymwysterau ôl-16 wedi hynny) – yn allweddol wrth lywio'r graddau y mae ysgolion uwchradd yn symud i gyfeiriad traws-ddisgyblaethol ai peidio. Rhaid bod yn onest, <u>dyma fydd y prif yrrwr</u>. Ni fydd modd dychmygu dysgu traws-ddisgyblaethol yn digwydd o gwbl, ac yn sicr heb unrhyw ddilyniant rhesymegol na llwyddiant, oni bai bod cyllid ac amser digyswllt digonol yn cael eu neilltuo ar gyfer hyfforddiant, ac yn ynad dim, cyd-gynllunio ymhlith staff dysgu. Er nad yw'r canlynol yn faterion sy'n cael eu trafod yn y canllaw drafft ar hyn o bryd, maent yn feysydd pwysig i'w hystyried o ran cynllunio i weithredu Cwricwlwm i Gymru, ac yn allweddol mewn perthynas â'r disgwyliadau ynghylch dysgu traws-ddisgyblaethol:				

- bydd cwestiynau pwysig yn codi maes o law ynghylch strwythur a chynnwys **addysg gychwynnol athrawon** yn y cyd-destun hwn – yn ogystal â'r rhaniad, o bosib artiffisial, a chynyddol anacronistaidd, rhwng addysg gychwynnol gynradd ac uwchradd
- rhaid bod yn ymwybodol o'r oblygiadau posib o ran strwythurau staffio (bwriadol ac anfwriadol), a sgil-efeithiau hynny o ran y gyfundrefn tâl ac amodau gwaith; gwelwn eisoes enghreifftiau lu o newidiadau i strwythurau staffio yn gwisgo mantell 'Cwricwlwm i Gymru' tra'i fod yn amlwg mai ystyriaethau ariannol sydd wir yn gyrru'r agenda

B3. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae [canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022](#) yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i arbenigo mewn disgyblaeth neu bwnc penodol o 14 oed?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
Sylwadau: Er nad yw pynciau unigol yn cael eu henwi'n benodol yn y canllawiau, mae modd adnabod deilliannau cyflawniad sy'n perthyn i bynciau penodol yn enwedig yng Ngham Cynnydd 5 – ond yn fwy felly mewn rhai Meysydd Dysgu a Phrofiad na'i gilydd. Yn hyn sy'n anodd ar hyn o bryd yw'r diffyg gwybodaeth ynghylch natur TGAU ar o 2025 ymlaen (rydym yn ymwybodol o'r amserlen ar gyfer ymgynghori a gwneud y penderfyniadau hyn). Bydd y penderfyniadau ynghylch cymwysterau yn gwbl ddylanwadol ar yr hyn mae'n ei olygu i 'arbenigo mewn disgyblaeth neu bwnc penodol', ac i ba raddau y mae'n ofynnol a/neu'n ddymunol i wneud hynny. Fel gyda'r broses o newid y cwricwlwm ei hun, rhaid, yn gyntaf, amlinellu'r weledigaeth a chytuno arni. Oni bai bod dyfarniad diamwys ynghylch y llwybr ymlaen, a'r newidiadau strwythurol i gyd-fynd â hi, a buddsoddiad sylweddol o ran egni, cyfathrebu ac adnoddau i'w gweithredu, y tuedd fydd i gadw at yr hyn sy'n gyfarwydd (ac felly'n rhwyddach ac yn fwy cyffyrddus). Mae tipyn o waith i'w wneud eto yn y maes hwn. O ganlyniad i'r fframwaith cymwysterau, a'r trefniadau atebolrwydd sydd wedi'u seilio i raddau helaeth iawn ar ganlyniadau cymwysterau, tuedd cryf y sector uwchradd yw arbenigo mor gynnar â phosib, er nad yw hyn, o reidrwydd er budd y dysgwyr.				

B4. Nod [canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022](#) yw helpu ymarferwyr ac athrawon i ddylunio cwricwlwm sy'n benodol i blant a phobl ifanc. I ba raddau y bydd hyblygrwydd a chefnogaeth ar gael i ymarferwyr ac athrawon wneud hyn?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
		✓		
Sylwadau: Rydym yn teimlo'n eithaf hyderus y bydd yr hyblygrwydd ar gael – yn sicr mae hynny wedi'i ddatgan yn ddiamwys yn y canllawiau drafft.				

Rhaid cydnabod, ar lefel ymarferol, bod Cwricwlwm i Gymru'n cynrychioli newid diwylliant chwyldroadol i'r rhan fwyaf o fewn y proffesiwn, ac eithrio'r rhai hynny oedd yn dysgu cyn cyfnod y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mi fydd, felly, yn her sylweddol iawn, ac mi fydd gweithredu ar sail y rhyddid newydd yn ddibynnol ar gyd-ddealltwriaeth ar bob lefel o'r system, ar sail hyfforddiant digonol, trylwyr a chyson. Hynny yw, bydd angen sicrhau bod ymarferwyr unigol o fewn lleoliadau ac ysgolion wedi'u harfogi â'r hyder a'r wybodaeth i fanteisio ar, ac i werthfawrogi'r hyblygrwydd newydd.

O ran cefnogaeth, mae hynny'n gwestiwn arall. Bydd angen i **ymarferwyr yn yr 'haen ganol'** atgyfnerthu'r negeseuon cywir, a darparu cefnogaeth briodol.

Byddai **adnoddau addas** (rhai sy'n caniatáu ac yn annog hyblygrwydd, nid adnoddau presgriptif) yn llawer o help, yn ogystal â threfniadau effeithiol a rhwydd i'w defnyddio, sy'n hysbys ac yn hylaw i ymarferwyr, ar gyfer **rhannu syniadau, adnoddau a chynlluniau gwaith** - gan gynnwys, o bosib, fforymau trafod ar-lein. Bydd pawb yn chwilio am ysbrydoliaeth mewn rhyw faes neu'i gilydd, ac mae'n bosib y bydd gan bawb ysbrydoliaeth i'w rhannu hefyd, mewn meysydd eraill.

Mae cyfle euraidd yma i gyhoeddwy a mudiadau Cymreig ddarparu adnoddau fydd yn helpu athrawon i arddel y rhyddid i ddilyn eu trywydd eu hunain. Byddant, yn ogystal, yn helpu i lenwi bylchau o ran gwybodaeth, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod digwyddiadau/hanes/diwylliant/naratif **lleol a Chymreig** yn cael pwyslais, yn hytrach na'r cyd-destunau Saesneg a Phrydeinig (o bosib mwy cyfarwydd) sydd wedi cael blaenoriaeth dros y degawdau.

Unwaith eto, er mwyn i'r hyblygrwydd hyn fod yn adeiladol – ac i osgoi bod rhai themâu'n cael eu hailadrodd ar draws y cwricwlwm, neu'r ystod oedrannau, bydd amser digyswllt ar gyfer cyd-gynllunio yn gwbl anhepgor.

B5. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau yn y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) a themâu trawsbynciol eraill (e.e. y dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol, sgiliau ehangach, gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, addysg cydberthynas a rhywioldeb)?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
		✓		

Sylwadau: Unwaith eto, mae'r cyfleoedd yma, yn bendant. Mae ymarferwyr wedi arfer ers sawl blwyddyn erbyn hyn â gweithio'n drawsgwricwlaidd ar lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Ond mae gwir angen datblygu'r math hyn o gydweithio ymhellach, a bod yn benodol ynghylch sut a phryd mae'r gwaith hyn yn cael ei gynllunio.

Er bod y canllawiau'n glir ynghylch y disgwyliadau mewn perthynas â'r 'dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol' ar draws y cwricwlwm, y cwestiwn i ni yw **sut fydd modd sicrhau neu wirio bod hyn yn digwydd mewn gwirionedd?** Yn sicr, nid ydym yn awgrymu haenau ychwanegol o atebolrwydd – ond bydd angen rhyw fath o fecanweithiau i sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu'n unol â'r weledigaeth, ac nad oes modd anwybyddu'r gofynion craidd. Unwaith eto, bydd **adnoddau addas, â phwyslais Cymreig**, yn gallu helpu i lenwi rhai bylchau, ac annog mentro i gyfeiriadau newydd – fel y byddai mecanweithiau ar gyfer rhannu cynlluniau, gweithgareddau ac adnoddau rhwng ymarferwyr.

B6. Sut y gellid mireinio'r fframweithiau trawsgwricwlaidd ([Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol](#)) er mwyn helpu i feithrin llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ym mhob rhan o'r cwricwlwm newydd?

--

B7. Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd canllawiau'r [meysydd dysgu a phrofiad](#) yn helpu plant yn ystod blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
		✓		

Sylwadau: Mae holl ethos Cwricwlwm i Gymru'n gydnaws iawn ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Gellid hyd yn oed dweud ei fod yn estyniad naturiol ohono.

Yr unig bryder sydd gennym yw bod angen sicrhau bod y ddogfennaeth yn hylaw - o ran ieithwedd a strwythur - i'r sector blynyddoedd cynnar (mewn ysgolion ac mewn lleoliadau eraill megis Cylchoedd Meithrin - y sector a ariennir nas cynhelir), a bod digon o bwyslais ar ddatblygiad plant o fewn yr ystod oedran hon, yn enwedig yr ystod iau, 3-5 oed.

Nodwn y bwriad i gadw asesiad sylfaenol wrth i ddysgwyr ddechrau ar eu haddysg 'ffurfiol' yn y Dosbarth Derbyn. Cytuna UCAC â'r bwriad hwnnw, yn ogystal â'r cynnig i ddefnyddio'r Proffil Cyfnod Sylfaen fel man cychwyn ar gyfer datblygu asesiad sylfaenol o'r fath. Bydd angen sicrhau bod yr asesiad sylfaenol yn gydnaws â Chantau Cynnydd 1 er mwyn gallu olrhain cynnydd.

B8. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae [canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022](#) yn helpu ac yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ar gyflymder priodol i'w datblygiad o fewn y maes dysgu a phrofiad rhwng 3 ac 16 oed?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
	✓			

Sylwadau: Mae UCAC yn gwerthfawrogi ac yn cymeradwyo'r pwyslais ar ddatblygiad ar gyflymder addas i ddysgwr unigol, ac y gall hynny amrywio o faes i faes, ac o un adeg i'r llall – nid oes modd gwadu mai dyna yw natur dysgu – nid yw'n ffitio patrwm o gynnydd cyson a thaclus. Ac mae'n iawn felly y dylid teilwra'r cynnwys a'r addysgeg i'r canfyddiad hyn.

Bydd y Camau Cynnydd, a'r darlun unigol a grëir o bob disgybl, yn helpu i adnabod ble mae pob disgybl arni, a ble mae angen anelu i fod. Mae hyn yn fethodoleg asesu a chynllunio llawer mwy adeiladol na'r dull 'best fit' sy'n ceisio gwasgu pob disgybl i ddiffiniad parod, ac felly'n gallu cuddio yn hytrach nag amlygu'r camau nesaf yn y daith.

Er bod hyn yn digwydd i raddau helaeth yn barod, mae'n debygol y bydd angen tipyn o gefnogaeth a hyfforddiant ar athrawon i deimlo'n hyderus ynghylch sut i wireddu hyn o ran eu cynlluniau gwaith – hynny yw, sut i gwmpasu anghenion amrywiol iawn o fewn yr un dosbarth, a hynny heb greu llwyth gwaith afresymol o feichus.

B9. Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd [canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022](#) yn darparu sail er mwyn helpu pobl ifanc i wneud cynnydd ar ôl 16 oed?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
Sylwadau: Mae'r pedwar diben yn parhau i fod yn addas iawn ar gyfer addysg ôl-16. Fodd bynnag, mae'r diffyg gwybodaeth am y sefyllfa mewn perthynas â chymwysterau'n gwneud y cwestiwn hwn yn anodd ei ateb.				

B10. Dylid rhoi blaenoriaeth i asesiadau ffurfiannol yn y cwricwlwm newydd. I ba raddau y mae'r [cynigion asesu](#) yn hyrwyddo'r egwyddor hon?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
✓				
Sylwadau: Mae'r ffaith bod eglurder ynghylch yr angen i ddatgysylltu asesu oddi wrth atebolrwydd allanol yn gam pwysig iawn o ran blaenoriaethu asesu ffurfiannol. Ffyrdd eraill y mae'r canllawiau'n hyrwyddo'r egwyddor o asesu ffurfiannol yw: • datgan bod asesu'n rhan annatod o ddysgu ac addysgu, ac felly'n rhan naturiol o'r addysgeg newydd • pwysleisio bod asesu'n weithgaredd parhaus, yn defnyddio dulliau amrywiol, ac nad oes angen iddo fod yn ffurfiol bob tro • nodi bod angen bod yn gymesur ynghylch yr hyn sy'n cael ei asesu a'i gofnodi				

B11. Mae'r [cynigion asesu](#) yn cynnig dull cymedroli ehangach – gan gefnogi deialog proffesiynol o ran natur cynnydd, dewis gweithgareddau dysgu ac asesu priodol, yn ogystal â sicrhau dealltwriaeth gyffredin o enghreifftiau o gyflawniad yng nghyd-destun y deilliannau cyflawniad.

Sut y byddech yn rhagweld y byddai eich lleoliad / ysgol yn rhoi'r dull hwn ar waith? Yn eich barn chi, pa gymorth pellach y byddai ei angen?

Sylwadau: Mae cymedroli'n broses hynod o bwysig er mwyn sicrhau cysondeb, sydd yn ei dro yn sail ar gyfer ymyrraeth/cefnogaeth/her bellach. Rhaid cydnabod ei fod yn waith manwl a gofalus sy'n gallu cymryd amser sylweddol – yn enwedig pan ystyrir bod angen iddo ddigwydd ar draws ysgolion yn ogystal ag oddi mewn.

Un o'r ffactorau allweddol ar gyfer prosesau cymedroli llwyddiannus yw sefydlu awyrgylch briodol – sef un adeiladol, agored a chefnogol, gyda phwyslais ar ganfod arfer dda.

Mae'n debygol y bydd amrywiaeth eang iawn o ran natur y gwaith a gymharir – llawer fwy nag ar hyn o bryd. Ni fydd modd cymharu tebyg at ei debyg, felly mae'n bosib y bydd y fethodoleg yn wahanol, ac yn anoddach yn enwedig ar y cychwyn. Byddai unrhyw gymorth a chefnogaeth yn hyn o beth yn werthfawr tu hwnt, a

byddai'n dda cynllunio ar gyfer rhannu arfer dda mewn perthynas â dulliau cymedroli.

B12. Pa faterion ymarferol sy'n effeithio ar leoliadau ac ysgolion y mae angen i ni fod yn ymwbyddol ohonynt os caiff y [cynigion asesu](#) eu rhoi ar waith?

Sylwadau: Mae sicrhau bod **meddalwedd briodol** yn ei lle yn gallu lleihau'n sylweddol iawn yr amser y mae'n ei gymryd i ymarferwyr gofnodi a dadansoddi gwaith asesu. Byddai sicrhau cysondeb yn y feddalwedd ar draws ysgolion Cymru'n wirioneddol fanteisiol, ac yn debygol o hwyluso prosesau adrodd a chymedroli. Efallai bod yna orgyffwrdd yma gyda'r gwaith sy'n digwydd eisoes i greu e-Bortffolios.

O ran y cynigion sy'n ymwneud â phontio'n benodol, bydd angen sicrhau bod modd rhannu'r wybodaeth briodol, rhwng lleoliadau nad ydynt o reidrwydd dan fantell Awdurdodau Lleol - er enghraifft rhwng lleoliadau yn y sector blynyddoedd cynnar cyn-ysgol ac ysgolion, ac yn yr un modd, rhwng ysgolion a cholegau Addysg Bellach. Mae hyn yn arbennig o wir os mai'r bwriad, fel yr amlinellir yn y Cynigion Asesu, yw rhannu gwybodaeth nid yn unig am gyrhaeddiad 'academaidd', ond 'lles y dysgwr, ei iechyd a'i lesiant, ei ymddygiad, a'i hanes cymorth.' Mae'n siŵr y bydd materion mewn perthynas â'r GDPR i'w hystyried, ond rhaid gweithio i **sicrhau nad oes rhwystrau i rannu gwybodaeth** fydd o fudd i ddysgwyr.

B13. Yn eich barn chi, pa oblygiadau sy'n deillio o [canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022](#) o ran eich anghenion [datblygiad proffesiynol](#) chi a'ch cydweithwyr mewn perthynas â'r canlynol:

- yr effaith ar arfer addysgegol
- goblygiadau cynllunio ar gyfer cwricwlwm wedi'i lywio gan ddibenion
- gofynion dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig ag addysgeg
- datblygu trefniadau cydweithredu yn yr ysgol a rhwng ysgolion
- meysydd dysgu proffesiynol penodol sy'n gysylltiedig â'r meysydd dysgu a phrofiad
- cyfleoedd i ddulliau ymholi proffesiynol ategu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd?

Sylwadau:

Bydd angen hyfforddiant/dysgu proffesiynol sylweddol i wynebu'r her o newid mewn dulliau **addysgeg**; i'r rhan fwyaf o athrawon, mae'r her yn cyfateb i 'ail-hyfforddi', gymaint yw'r gwahaniaeth yn y dulliau dysgu. Bydd angen datblygu meddylfryd newydd, sy'n cynnwys bod yn barod i arbrofi a mentro – heb ofn beirniadaeth lem am wneud hynny; mae goblygiadau pwysig i'r haen ganol yn sgil hynny hefyd – a'r angen iddynt hwythau dderbyn yr un dysgu proffesiynol ag athrawon llawr-dosbarth.

O ran **cynllunio** ar gyfer y cwricwlwm newydd, bydd angen tipyn o hyfforddiant, ond yn bennaf, bydd angen amser digyswllt **sylweddol** i ganiatáu am gynllunio gwirioneddol drawsgwricwlaidd yn unol â'r weledigaeth.

Mewn perthynas â **datblygiad proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r meysydd dysgu a phrofiad**, mae UCAC yn pryderu am y diffyg cyd-destun 'Cymreig' sydd gan lawer o'r gweithlu - am nad oedd eu haddysg hwythau wedi elwa o'r pwyslais hwn. Credwn y byddai'n fuddiol cynnig datblygiad proffesiynol penodol yn y maes

hwn (a allai fod fesul Maes Dysgu a Phrofiad, neu ar draws y Meysydd), gan gynnwys sut i gyrchu gwybodaeth/adnoddau priodol (gan gynnwys trwy fudiadau/sefydliadau lleol a chenedlaethol) i ddatblygu ‘cyd-destunau’ dysgu priodol, a rhannu adnoddau ac arfer dda.

Yn y cyd-destun hwn yn ogystal, mi fydd datblygiad proffesiynol – o wahanol fathau – sy’n datblygu sgiliau ieithyddol athrawon a staff cymorth dysgu yn y Gymraeg yn gwbl hanfodol er mwyn gallu gwireddu gweledigaeth Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Bydd rhaid i’r datblygiad hwnnw ddechrau gydag addysg gychwynnol athrawon, a fod ar gael gydol gyrfa ar wahanol lefelau i sicrhau bod cynnydd sylweddol a chyflym yn y maes hwn.

B14. Pa heriau a chyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â rhoi egwyddorion y [cynigion asesu](#) drafft ar waith?

Sylwadau: Bydd angen dysgu proffesiynol dwys ar gyfer pawb yn y system yn ystod y cyfnod yn arwain lan at gyflwyno’r cwricwlwm ym mis Medi 2022 er mwyn sefydlu’r egwyddorion a’r gyd-ddealltwriaeth. Wedi hynny, bydd angen sicrhau dysgu proffesiynol sy’n caniatáu i ymarferwyr rannu a chymharu arfer dda.

Adran C – Penodol: Meysydd dysgu a phrofiad

C1. Os hoffech ddarparu adborth penodol yn ymwneud ag un neu fwy o feysydd dysgu a phrofiad penodol, gwnewch ddetholiad ac ychwanegwch eich sylwadau isod.

Celfyddydau Mynegiannol		Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	
Dyniaethau		Mathemateg a Rhifedd	
Iechyd a Lles		Gwyddoniaeth a Technoleg	

Sylwadau (os dewiswch mwy nag un maes dysgu a phrofiad nodwch bod sylwad)

--

C2. I ba raddau y mae'r camau cynnydd ym [Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd](#) yn cyfleu'r galluoedd a nodir yn yr egwyddorion cynnydd?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
Sylwadau:				

C3. I ba raddau y mae'r adrannau dysgu ym [Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu](#) yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau trawsieithu?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
Sylwadau:				

C4. I ba raddau y mae'r canllawiau ym [Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu](#) yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu'r broses o gaffael a dysgu ieithoedd?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
Sylwadau: Byddai'n dda ymhelaethu yma ar natur a manteision dulliau trochi - a hynny'n sicr yng nghyd-destun y Gymraeg, ac yn sicr yn y Cyfnod Sylfaen - ond yn ogystal ar gyfer ieithoedd eraill ar adegau gwahanol ar draws yr ystodau oedran. Gallai hynny'n sicr arwain at drafodaethau diddorol ynghylch pa mor rhwydd/anodd yw gallu 'trochi' mewn gwahanol ieithoedd, a pham; ac mi fyddai'n gallu arwain at brofiadau ymarferol diddorol ac ymestynnol iawn.				

C5. I ba raddau y mae'r canllawiau [Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles](#) yn cefnogi dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas â sicrhau iechyd a lles?

Arbennig o dda	Da iawn	Da	Gweddol dda	Ddim yn dda
		✓		
Sylwadau: Fel yn achos gymaint o faterion mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, mae'r egwyddorion yn gadarn, yn bositif ac â'r potensial i newid pethau er gwell yn sylweddol iawn. Ond mi fydd llwyddiant yn ddibynnol ar ddatblygiad proffesiynol, negeseuon cyson ac amser cynllunio digonol.				

A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach neu roi adborth ar unrhyw beth arall?

--

Dychwelyd erbyn 19 Gorffennaf 2019

Ebost: CwricwlwmGymru2022@llyw.cymru
Anfonwch at: Adborth Cwricwlwm i Gymru 2022
 Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
 Llywodraeth Cymru
 Parc Cathays
 Caerdydd
 CF10 3NQ